

Taflen Wybodaeth 35w ● Ionawr 2025

Rhentu eich tŷ yng Nghymru – eich hawliau, a phroblemau sy'n gysylltiedig â'ch rhent



Cyngor Age Cymru

0300 303 44 98

www.agecymru.wales

Cynnwys

1	Gwybodaeth am y daflen wybodaeth hon	4
	1.1 Cyflwyniad	4
2	Newidiadau deddfwriaethol yng Nghymru a therminoleg sy'n gysylltiedig â chyfraith tai	5
	2.1 Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016	5
3	Eich hawliau o ran rhent - contractau meddiannaeth yn y sector rhentu preifat	9
	3.1 Cefndir - contractau meddiannaeth yn y sector rhentu preifat	9
	3.2 Hawliau o ran rhent os oes gennych chi gontract safonol cyfnod penodol	10
	3.3 Hawliau o ran rhent os oes gennych chi gontract cyfnodol safonol	11
	3.4 Hawliau o ran rhent os oes gennych chi gontract safonol cyfnod penodol wedi ei drosi neu gontract cyfnodol safonol wedi ei drosi	11
	3.5 Tenant rheoleiddiedig (weithiau maen nhw'n cael eu galw'n denantiaethau gwarchodedig)	12
4	Eich hawliau ynghylch rhent – contractau meddiannaeth gyda landlord cymunedol (landlordiaid awdurdodau lleol neu gymdeithasau tai)	13
	4.1 Cefndir – contractau meddiannaeth gan landlordiaid cymunedol	13
	4.2 Hawliau ynghylch rhent os dechreuodd eich contract meddiannaeth gyda'ch landlord cymunedol ar ôl 1 Rhagfyr 2022	14
	4.3 Hawliau ynghylch rhent os oes gennych chi gontract meddiannaeth wedi'i addasu gyda landlord cymunedol (cytundebau rhent a oedd ar waith cyn 1 Rhagfyr 2022)	17
5	Os byddwch chi'n cael trafferth fforddio eich rhent	18
6	Rhent yn cynyddu a budd-daliadau lles	19
7	Ôl-ddyledion rhent	22
	7.1 Ceisio cyngor	22
	7.2 Trafod ôl-ddyledion	22
	7.3 Cynllun Seibiant Dyledion ('Lle i Anadlu')	23

	7.4 Sefydliadau sy'n darparu cyngor ar ddyledion	24
8	Rhentu Doeth Cymru – gwiriwch fod eich landlord preifat wedi cofrestru, a bod ganddyn nhw drwydded	25
	8.1 Cod Ymarfer Rhentu Doeth Cymru ar gyfer landlordiaid preifat ac asiantiaid gosod eiddo	25
	8.2 Prawf 'person addas a phriodol' ar gyfer landlordiaid preifat ac asiantiaid gosod eiddo	26
	8.3 Os nad yw'ch landlord preifat wedi cofrestru neu os nad oes gan eich landlord/asiant drwydded	27
	8.4 Gwirio'r gofrestr	28
9	Ffioedd Gosod	28
10	Sefydliadau Defnyddiol	29
11	Rhagor o wybodaeth am Age Cymru	31

1 Gwybodaeth am y daflen wybodaeth hon

Mae'r daflen wybodaeth hon yn llawn gwybodaeth am:

- faint o rent gall eich landlord godi, yn dibynnu ar y math o gontract meddiannaeth sydd gennych chi;
- beth allwch chi wneud os ydych chi'n poeni am dalu eich rhent, neu os oes gennych chi ôl-ddyledion rhent; a
- gwirio bod gan eich landlord neu asiant preifat drwydded, a sicrhau eu bod nhw wedi cofrestru (gan gynnwys materion sy'n ymwneud â rhent o ganlyniad i hyn).

Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth am eich hawliau fel deiliad contract gyda chontract meddiannaeth rhent, ewch ati i ddarllen rhai o'n taflenni gwybodaeth a'n canllawiau eraill am dai:

www.agecymru.wales/information-resources

Fel arall, cysylltwch â **Chyngor Age Cymru** i gael rhagor o wybodaeth – ewch i adran 10 i gael rhagor o fanylion.

Nodyn: Mae'r wybodaeth a roddir yn y daflen wybodaeth hon yn berthnasol yng Nghymru. Mae rheolau gwahanol yn debygol o fod yn berthnasol yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Cysylltwch ag Age UK, Age NI ac Age Scotland yn y drefn honno i gael rhagor o wybodaeth.

1.1 Cyflwyniad

Mae gan wahanol ddeiliaid contractau (y cyfeirir atynt yn flaenorol fel tenantiaid) hawliau gwahanol ynghylch rhentu. Yn gyffredinol, mae eich hawliau yn dibynnu ar:

- ba sector tai rydych chi'n byw ynddo ac, felly, y math o landlord sydd gennych chi; a'r
- math o gontract meddiannaeth sydd gennych chi.

Mae'r gyfraith yn y maes hwn yn gymhleth, felly mae'n syniad da i ofyn am gyngor os ydych chi am gymryd camau yn erbyn eich landlord. Nod y daflen wybodaeth hon yw rhoi gwybodaeth sylfaenol i chi am eich hawliau, ond efallai bydd angen cyngor manylach arnoch gan gynghorydd arbenigol (efallai y bydd rhai o'r sefydliadau, fel Shelter Cymru yn adran 10, yn medru darparu help addas).

Os ydych chi'n cael trafferth talu eich rhent, edrychwch i weld os fedrwch chi hawlio Budd-dal Tai (os ydych chi dros oedran Pensiwn y Wladwriaeth), neu Gredyd Cynhwysol (os ydych chi o dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth). Mae'r rhain yn fudd-daliadau i bobl ar incwm isel. Efallai medrwch chi gael help gyda'r Dreth Gyngor. Gweler adran 6 isod am ragor o wybodaeth.

2 Newidiadau deddfwriaethol yng Nghymru a therminoleg sy'n gysylltiedig â chyfraith tai

2.1 Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

Cafodd *Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016* ei gweithredu ar **1 Rhagfyr 2022** ac mae'n golygu bod y ffordd mae pob landlord (ym mhob sector tai) yn rhentu eu heiddo wedi newid.

Nodyn: Mae'r wybodaeth yn yr adran hon yn grynodedb byr o'r prif bwyntiau sy'n cael eu nodi yn y ddeddfwriaeth. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am yr elfennau hyn naill ai yn adrannau perthnasol y daflen wybodaeth, neu yn ein taflenni gwybodaeth eraill.

Terminoleg newydd

O dan y Ddeddf:

- Gelwir *tenantiaid* (a thrwyddedeion) bellach yn '**ddeiliaid contractau**'.
- Gelwir *cytundebau tenantiaeth* bellach yn '**gontractau meddiannaeth**'.

- Mae landlordiaid awdurdodau lleol (cyngor) a chymdeithasau tai bellach yn cael eu galw'n '**landlordiaid cymunedol**' (bydd darparwyr tai cymdeithasol cofrestredig preifat hefyd yn cael eu galw'n landlordiaid cymunedol). Bydd landlordiaid sector rhentu preifat yn parhau i gael eu galw'n 'landlordiaid preifat', felly ni fydd hyn yn newid.

Mathau o gontract meddiannaeth

Mae'r ddeddf yn ceisio symleiddio cyfraith tai trwy nodi dau fath o gontract meddiannaeth:

- **Contract safonol** – yn gyffredinol i'w ddefnyddio yn y sector rhentu preifat.
- **Contract diogel** – yn gyffredinol i'w ddefnyddio yn y sector rhentu cymdeithasol.

Nodyn: Fodd bynnag, mae fersiynau o'r contractau uchod 'wedi'u trosi'.

Dyma beth sy'n digwydd pan fydd gan bobl denantiaeth a oedd eisoes ar waith cyn i'r *Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru)* ddod i rym ar 1 Rhagfyr 2022.

Contractau wedi'u trosi

Yn gyffredinol, bydd contractau wedi'u trosi yn darparu hawliau newydd, o ganlyniad i *Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru)*, er y bydd llawer o delerau'r cytundeb gwreiddiol yn parhau i fod yn berthnasol. Mae Shelter Cymru yn cynghori:

"Mae telerau'r cytundeb tenantiaeth a oedd gennych cyn 1 Rhagfyr 2022 yn dal i fod yn rhwymol arnoch chi a'ch landlord. Yr unig eithriad yw os yw telerau'r cytundeb a wnaethoch cyn 1 Rhagfyr 2022 yn anghydnaws â thelerau sylfaenol y math newydd o gontract meddiannaeth"¹.

Isod, mae 'na rhagor o wybodaeth am **delerau sylfaenol**.

O dan *Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru)*, rhaid i landlordiaid ddarparu contractau ysgrifenedig i ddeiliaid contractau. Pan mae contractau wedi'u trosi, roedd yn rhaid i landlordiaid ddarparu hyn erbyn 31 Mai 2023, a bydd y contract ysgrifenedig yn ymgorffori telerau eich cytundeb gwreiddiol a wnaed cyn 1 Rhagfyr 2022.

¹ 'Contractau wedi'u haddasu', gwefan Shelter Cymru: <https://sheltercymru.org.uk/housing-advice/renting/converted-contracts> (Cyrchwyd ddiwethaf ar 10 Ionawr 2025).

Nodyn: Cysylltwch â Shelter Cymru i ofyn am gyngor os na gafodd hyn ei wneud (ewch i adran 10 i ddod o hyd i fanylion cyswllt), neu os ydych chi ond wedi cael cytundeb ysgrifenedig yn ddiweddar. Byddai'n syniad arbennig o dda i chwilio am gyngor os oes rhywun yn gofyn i chi arwyddo cytundeb ysgrifenedig, oherwydd bydd angen i chi wirio nad yw'r cytundeb yn gytundeb hollol newydd ac nad yw'n esgeuluso unrhyw hawliau sylweddol a oedd gennych chi.

Telerau sylfaenol mewn contractau meddiannaeth

Mae telerau sylfaenol yn eich contract meddiannaeth yn rhoi hawliau pwysig i chi y **mae'n rhaid** i landlordiaid eu cynnwys yn y contract.

Mae dau fath o dermau sylfaenol:

- **Telerau sylfaenol caled** – ni ellir hepgor y rhain wrth ysgrifennu contract meddiannaeth, a ni ellir newid y termau mewn unrhyw ffordd.
- **Termau sylfaenol meddal** – yr unig adeg y gellir newid term sylfaenol meddal a/neu ei hepgor o'r contract yw os yw'n eich rhoi chi, fel deiliad y contract, mewn "**gwell sefyllfa**". Mae'n rhaid eich bod chi'n hapus i gytuno i'r newid.² Mae hyn ond yn berthnasol wrth ymdrin â thermau sylfaenol meddal.

Nodyn: Gall beth sy'n cael ei alw'n 'derm sylfaenol' weithiau fod yn wahanol yn dibynnu ar ba fath o gontract galwedigaeth ydyw – e.e. diogel neu safonol.

Newidiadau sylweddol eraill o dan y ddeddfwriaeth:

- Bydd deiliaid contract yn derbyn contract ysgrifenedig sy'n nodi eu hawliau a'u cyfrifoldebau.
- Mae cynnydd yn y cyfnod hysbysiad troi allan 'dim bai' o ddau i **chwe** mis.
- Mesurau i ddiogelu pobl rhag troi allan dialgar (h.y. lle mae landlord yn cyflwyno hysbysiad i ddeiliad y contract oherwydd eu bod yn gofyn am atgyweiriadau a/neu gwyno am amodau gwael).

² 'Telerau sylfaenol contractau meddiannaeth', gwefan Shelter Cymru: <https://sheltercymru.org.uk/housing-advice/renting/written-occupation-contracts/fundamental-terms-of-occupation-contracts> (cyrchwyd ddiwethaf 10 Ionawr 2025).

- Gwell hawliau olyniaeth – h.y. mae'r hawliau hyn yn nodi pwy sy'n gallu parhau i fyw mewn eiddo ar ôl i ddeiliad y contract farw.
- Mwy o hyblygrwydd mewn achosion lle mae cyd-ddeiliaid contractau, gan ei gwneud hi'n haws ychwanegu pobl eraill at gontract galwedigaeth, neu eu tynnu o'r contract.
- Rheolau lle mae'n rhaid i landlord sicrhau bod eu heiddo yn **ffit i fod yn gartref**.

Rhagor o wybodaeth am Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

Mae gan Lywodraeth Cymru adran ar eu gwefan ar y ddeddfwriaeth, gan gynnwys tudalennau penodol ar gyfer deiliaid contract a landlordiaid, ynghyd â dolen i'r ddeddf ei hun:

www.gov.wales/housing-law-changed-renting-homes

Nodyn: Gwirio bod gan eich landlord drwydded, a'u bod nhw wedi cofrestru

Rhaid i bob landlord preifat yng Nghymru gofrestru gyda Rhentu Doeth Cymru. Mae'r gofyniad hwn yn dyddio cyn gweithredu *Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016*, ond gall effeithio ar eich hawliau wrth rentu (er enghraifft, os nad yw eich landlord wedi cofrestru).

Os ydych chi'n chwilio am gartref i'w rentu yn y sector rhentu preifat, gwnewch yn siŵr bod y landlord wedi cofrestru ac wedi cydymffurfio â'r rheolau trwyddedu cyn i chi gytuno i fyw yn yr eiddo a chyn i chi arwyddo contract meddiannaeth. Mae adran 8 isod yn cynnwys rhagor o wybodaeth am Rhentu Doeth Cymru a gofynion cofrestru a thrwyddedu a sut y gallwch chi wirio popeth. Os ydych eisoed yn rhentu ac yn darganfod nad yw'ch landlord wedi cydymffurfio â'r rheolau cofrestru a thrwyddedu, gofynnwch i Shelter Cymru am gyngor (ewch i adran 10 i ddod o hyd i'w manylion cyswllt).

3 Eich hawliau o ran rhent - contractau meddiannaeth yn y sector rhentu preifat

3.1 Cefndir - contractau meddiannaeth yn y sector rhentu preifat

Os ydych chi'n rhentu eich cartref yn y sector rhentu preifat, mae'n debygol y bydd gennych un o'r mathau canlynol o gontract meddiannaeth (yn dibynnu os oedd eich cytundeb rhentu wedi cychwyn cyn gweithredu *Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016* ar 1 Rhagfyr 2022).

Os ddechreuoch chi rhentu ar ôl 1 Rhagfyr 2022, mae'n debygol y bydd gennych chi:

- gontract safonol cyfnod penodol; *neu*
- gontract safonol cyfnodol.

Os oeddech eisoes yn rhentu eich cartref cyn 1 Rhagfyr 2022, mae'n debygol y bydd gennych chi:

- gontract safonol cyfnod penodol wedi'i drosi; *neu*
- gontract safonol cyfnodol wedi'i drosi.

Gweler yr is-adrannau sy'n dilyn am ragor o wybodaeth am y gwahanol fathau hyn o gontract meddiannaeth gydag ystyriaeth benodol i'ch hawliau ynghylch rhent.

Nodwch: Efallai y bydd gan rai pobl denantiaeth reoleiddiedig o hyd (hynny yw, dechreuodd y denantiaeth cyn 15 Ionawr 1989) – mae 'na wybodaeth am hyn yn adran 3.5.

Mae gan daflen wybodaeth 68w *Rhentu eich cartref yng Nghymru – eich hawliau os cewch chi fygythiad o droi allan*, rywfaint o wybodaeth am rai eithriadau eraill lle mae'n bosib na fydd gennych unrhyw un o'r mathau o gontractau meddiannaeth uchod. Os ydych chi'n wynebu sefyllfa debyg, gofynnwch am rhagor o wybodaeth gan Shelter Cymru.

3.2 Hawliau o ran rhent os oes gennych chi contract safonol cyfnod penodol

Nid oes gan contractau meddiannaeth safonol unrhyw gyfyngiadau ar faint y gellir cynyddu eich rhent. Fodd bynnag, bydd y rhan fwyaf o landlordiaid yn ystyried prisiau tai tebyg sy'n cael eu rhentu yn yr ardal leol, cyn penderfynu pa rent i'w osod ar gyfer eich cartref (neu faint i'w gynyddu). Mewn geiriau eraill, maent yn debygol o gael eu harwain gan 'rhent y farchnad'.

Mae contract safonol cyfnod penodol yn para am gyfnod penodol (er nad oes modd eich troi allan ar ddiwedd y cyfnod penodol heb orchymyn llys. Mae 'na rhagor o wybodaeth yn ein taflen wybodaeth 68w *Rhentu eich cartref yng Nghymru – eich hawliau os cewch chi fygythiad o droi allan*). Mae contract safonol cyfnod penodol hefyd yn golygu na chaniateir i'ch landlord gynyddu'r rhent tan **ar ôl** i'r cyfnod penodol ddod i ben (oni bai eich bod wedi cytuno iddo).

Pan ddaw'r cyfnod penodol i ben, bydd y landlord naill ai'n:

- cynnig contract safonol cyfnod penodol newydd i chi. Fodd bynnag, gall y landlord osod swm rhent newydd bryd hynny fel rhan o'r contract newydd; *neu*
- ni fyddant yn gwneud unrhyw beth (h.y. peidio â chynnig contract cyfnod penodol newydd), a fyddai'n golygu eich bod chi'n dod yn ddeiliad contract safonol cyfnodol statudol yn awtomatig. Os yw'ch landlord yn dymuno cynyddu eich rhent bryd hynny, yna mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â'r rheolau ynghylch rhent ar gyfer contractau safonol cyfnodol (gweler adran 3.3 isod).

Nodwch: Os yw'ch landlord yn dweud eu bod yn cynyddu eich rhent pan fyddwch yn dal i fod o fewn cyfnod contract safonol cyfnod penodol, gofynnwch am gyngor arbenigol ar dai (er enghraifft gan sefydliad fel Shelter Cymru – mae eu manylion cyswllt yn adran 10). Cofiwch, "os ydych chi'n dechrau talu'r swm y mae'r landlord yn ei gynnig, bydd hynny'n cael ei ystyried fel arwydd eich bod chi wedi cytuno â'r cynnydd rhent"³.

³ 'Cynnydd rhent a rhent', gwefan Shelter Cymru: <https://sheltercymru.org.uk/housing-advice/paying-for-housing/rent-and-rent-increases> (Cyrchwyd ddiwethaf 10 Ionawr 2025).

3.3 Hawliau o ran rhent os oes gennych chi contract cyfnodol safonol

Os oes gennych un o'r contractau hyn, rhaid i chi gael cyfnod o rybudd o ddau fis gan y landlord pan fyddant yn dymuno cynyddu eich rhent.

Rhaid iddynt wneud hyn yn ysgrifenedig drwy ddefnyddio ffurflen swyddogol RHW12⁴.

Nid yw'r landlord yn gallu cynyddu eich rhent lai na 12 mis ar ôl y cynnydd diwethaf.

Os nad yw'r landlord yn dilyn y weithdrefn hon

Mae Shelter Cymru yn cynghori, os yw'ch landlord yn bwriadu cynyddu'r rhent heb ddilyn y weithdrefn gywir a ddisgrifir uchod, "ni fydd hi'n gyfreithiol rwydol arnoch chi i dalu'r swm maen nhw'n gofyn amdano oni bai eich bod wedi cytuno". Fodd bynnag, "cofiwch, os ydych chi'n dechrau talu'r swm newydd, bydd hynny'n cael ei ystyried fel arwydd eich bod chi wedi cytuno i'r cynnydd"⁵.

Cysylltwch â Shelter Cymru am gyngor os ydych chi'n wynebu sefyllfa fel hyn.

3.4 Hawliau o ran rhent os oes gennych chi contract safonol cyfnod penodol wedi ei drosi neu contract cyfnodol safonol wedi ei drosi

Contractau safonol cyfnodol wedi'u trosi yn unig

Mae'r un weithdrefn yn berthnasol ag yr amlinellir yn adran 3.3 uchod – h.y. rhaid i chi gael cyfnod o rybudd o ddau fis pan fydd y landlord yn bwriadu cynyddu'r rhent (a rhaid iddynt ddefnyddio'r ffurflen RHW12). Nid yw'r landlord yn gallu cynyddu eich rhent lai na 12 mis ar ôl y cynnydd blaenorol.

⁴ Mae copi o'r ffurflen RHW12 ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: <https://www.gov.wales/notice-variation-rent-form-rhw12>

⁵ 'Cynnydd rhent a rhent', gwefan Shelter Cymru: <https://sheltercymru.org.uk/housing-advice/paying-for-housing/rent-and-rent-increases> (Cyrchwyd ddiwethaf 10 Ionawr 2025).

Contractau safonol cyfnod penodol wedi'u trosi a chontractau safonol cyfnodol wedi'u trosi

Os oes gennych un o'r contractau hyn wedi'u trosi, mae gennych yr hawl i herio cynnydd rhent trwy Bwyllgor Asesu Rhent. Mae'r Pwyllgor yn cael ei weinyddu gan Dribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru.

Rhaid i chi wneud cais i wneud hyn o fewn 2 fis ar ôl derbyn hysbysiad RHW12 gan eich landlord yn nodi eu bod yn bwriadu cynyddu'r rhent.

Dewch o hyd i'r ffurflen gais ar wefan Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru yma:

<https://residentialpropertytribunal.gov.wales/renting-homes-wales-act-2016>

Mae'n bwysig cofio, fodd bynnag, y gallai'r Pwyllgor osod rhent uwch os ydynt yn darganfod bod y pris newydd yn dal i fod yn llai na phris rhent deiliaid contract eraill sy'n byw mewn eiddo tebyg yn yr ardal.

Nodwch: Mae Shelter yn cynghori, os oedd gennych hen denantiaeth sicr neu denantiaeth sicr "cyn i'ch cytundeb drosi, ac roedd eich cytundeb yn cynnwys cymal 'adolygiad rhent', yna dylai eich landlord barhau i ddilyn y weithdrefn a nodir yn eich cytundeb tenantiaeth sicr gwreiddiol"⁶.

3.5 Tenant rheoleiddiedig (weithiau maen nhw'n cael eu galw'n denantiaethau gwarchodedig)

Mae tenantiaethau rheoledig yn brin gan nad ydynt wedi cael eu rhoi ers amser maith, ond mae'n bosibl bod gennych chi un os ydych chi wedi byw yn eich cartref neu gyda'r un landlord ers cyn 15 Ionawr 1989. Ni fydd y math hwn o denantiaeth yn cael ei drawsnewid i fath newydd o dan *Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016* ac felly bydd yr hen derminoleg yn dal i fod yn berthnasol (h.y. tenantiaid a chytundeb tenantiaeth, yn hytrach na deiliad contract a chontract meddiannaeth).

Mae gan denantiaid rheoledig lefel uchel o ddiogelwch mewn sawl maes, gan gynnwys hawl i 'rent teg'.

⁶ Ibid

Rhentu teg a chynnydd mewn rhent

Gall tenantiaid rheoledig a'r landlord wneud cais i Swyddog Rhent i benderfynu beth fyddai 'rhent teg' ar gyfer yr eiddo. Dim ond hyd at uchafswm a osodwyd gan y Swyddog Rhent y gall eich landlord godi.

Unwaith y bydd rhent teg wedi'i benderfynu ('cofrestredig'), dim ond trwy wneud cais am rent teg newydd y gall eich landlord gynyddu eich rhent. Ni allant wneud cais o fewn dwy flynedd i'r cofrestriad diwethaf oni bai bod amgylchiadau arbennig yn berthnasol. Er enghraifft, maent yn gwella cyflwr eich eiddo a nid yw'r rhent teg presennol bellach yn briodol.

Nodwch: Os ydych yn anghytuno â rhent teg a gofrestrwyd gan y Swyddog Rhent, gallwch apelio i'r Pwyllgor Asesu Rhent. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru:

<https://residentialpropertytribunal.gov.wales/fair-rent>

Fodd bynnag, cofiwch fod posibilrwydd y gallai'r Pwyllgor osod rhent uwch na'r un a benderfynwyd yn wreiddiol gan y Swyddog Rhent, felly byddai'n syniad da ceisio cyngor cyn apelio yn erbyn eu penderfyniad (er enghraifft, gan Shelter Cymru – mae eu manylion cyswllt i'w gweld yn adran 10).

4 Eich hawliau ynghylch rhent – contractau meddiannaeth gyda landlord cymunedol (landlordiaid awdurdodau lleol neu gymdeithasau tai)

4.1 Cefndir – contractau meddiannaeth gan landlordiaid cymunedol

Bydd cyfanswm y rhent gyda landlord cymunedol fel arfer yn llai nag y byddai landlordiaid preifat yn ei godi am eiddo tebyg. Os ydych chi'n rhentu eich cartref gan landlord cymunedol, mae'n debygol y bydd gennych un o'r mathau canlynol o gontract meddiannaeth (yn dibynnu a oedd eich cytundeb rhentu eisoes ar waith cyn gweithredu *Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016* ar 1 Rhagfyr 2022).

Os gwnaethoch ddechrau rhentu ar ôl 1 Rhagfyr 2022, mae'n debygol y bydd gennych chi:

- contract meddiannaeth ddiogel;
- contract safonol rhagarweiniol; *neu*
- contract safonol ymddygiad gwaharddedig.

Os oeddech eisoes yn rhentu eich cartref cyn 1 Rhagfyr 2022, mae'n debygol y bydd gennych chi:

- contract diogel wedi'i drosi;
- contract safonol rhagarweiniol wedi'i drosi; *neu*
- contract safonol ymddygiad gwaharddedig wedi'i drosi.

Nodwch: Bydd y rhan fwyaf o ddeiliaid contractau sy'n rhentu gan landlord cymunedol yn cael contract meddiannaeth ddiogel.

Mae contractau safonol rhagarweiniol fel arfer yn para blwyddyn a byddant yn newid yn gyffredinol i fod yn contract meddiannaeth ddiogel ar ddiwedd y cyfnod prawf hwn.

Mae contractau safonol ymddygiad gwaharddedig yn cael eu rhoi lle mae deiliad contract wedi ymddwyn mewn ffordd gwrthgymdeithasol yn ei gymuned (maent fel arfer yn para am flwyddyn cyn belled nad oes rhagor o broblemau, a fel arfer bydd contract meddiannaeth ddiogel newydd yn cael ei gynnig).

4.2 Hawliau ynghylch rhent os dechreuodd eich contract meddiannaeth gyda'ch landlord cymunedol ar ôl 1 Rhagfyr 2022

Nodwch: Mae'r wybodaeth yn yr adran hon yn berthnasol ar gyfer yr holl fathau o contractau meddiannaeth (ar ôl 1 Rhagfyr 2022) a restrir yn adran 4.1 uchod (oni nodir yn wahanol).

Rhaid i gontractau meddiannaeth gyda landlord cymunedol nodi manylion am sut y gellir newid eich rhent. Rhaid iddynt hefyd roi rhybudd o 2 fis i chi os ydynt yn bwriadu cynnyddu'r rhent, gan gyflwyno hysbysiad yn ysgrifenedig ar ffurflen RHW12.

Ni ellir cynyddu eich rhent **lai na 12 mis** ar ôl cynnydd blaenorol.

Bydd landlordiaid cymunedol yn cynyddu rhent yn unol â '**Safon rhent a thaliadau gwasanaeth 2020 i 2025**' Llywodraeth Cymru (mae'n berthnasol i "anghenion cyffredinol a thai gwarchod a ariennir drwy raglenni Llywodraeth Cymru neu a ddarperir o adnoddau'r landlord ei hun", er bod rhai eithriadau – gweler '*Nodwch*' ar ddiwedd yr adran hon).

Mae'r safon rhent a thâl gwasanaeth yn cynnwys fformiwla sy'n ystyried cyfradd Chwyddiant Prisiau Defnyddwyr y flwyddyn flaenorol. Gellir gweld copi ar wefan Llywodraeth Cymru:

www.gov.wales/rent-and-service-charge-standard-2020-2025

Nodwch: Ym mis Mai 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y bydd y '*Safon rhent a thaliadau gwasanaeth*' yn cael ei ymestyn yn ei ffurf bresennol "**hyd at ddiwedd mis Mawrth 2026**"⁷.

Rheolau safonol Rhent a Thâl Gwasanaeth yw:

- "Chwyddiant Prisiau Defnyddwyr +1% yw'r **cynnydd cyffredinol uchaf** a ganiateir yn ystod unrhyw flwyddyn ond **ni ddylid** ystyried Chwyddiant Prisiau Defnyddwyr +1% fel cynnydd awtomatig".
- Gellir lleihau, rhewi neu gynyddu rhent deiliaid contract unigol "hyd at £2 ychwanegol" yr wythnos ar yr amod nad yw'r cynnydd cyffredinol mewn incwm rhent y landlordiaid cymdeithasol yn fwy na Chwyddiant Prisiau Defnyddwyr +1%".
- "Pe bai Chwyddiant Prisiau Defnyddwyr yn disgyn y tu allan i'r ystod o "0% i 3%", cyfrifoldeb Gweinidogion Cymru fydd hi i benderfynu ar y cynnydd priodol i'w gymhwyso ar gyfer y flwyddyn honno".⁸ Mae hyn wedi bod yn arbennig o berthnasol yn ystod y blynyddoedd diwethaf pan mae'r gyfradd chwyddiant yn uwch na 3% – gweler '*Nodwch*' isod.

⁷ 'Datganiad Ysgrifenedig: Fforddiadwyedd wrth wraidd polisi rhent cymdeithasol', 16 Mai 2024, gwefan Llywodraeth Cymru: www.gov.wales/written-statement-affordability-centre-social-rent-policy (Cyrchwyd ddiwethaf 13 Ionawr 2025).

⁸ Safon rhent a thâl gwasanaeth Llywodraeth Cymru 2020-2025.

- Disgwylir i landlordiaid cymunedol osod ffioedd gwasanaeth sy'n rhesymol ac yn fforddiadwy a gallant adolygu'r rhain yn flynyddol. "Mae'n ofynnol i landlordiaid restru eu taliadau gwasanaeth ar wahân i'r rhent i ganiatáu tryloywder"⁹.

Nodwch: Gwybodaeth gyfredol am uchafswm cynnydd rhent o ganlyniad i gyfraddau chwyddiant uwch

Ar gyfer blwyddyn ariannol Ebrill 2024 hyd at ddiwedd mis Mawrth 2025, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y gall landlordiaid cymunedol gynyddu rhent o uchafswm o 6.7%¹⁰. Ar adeg eu cyhoeddiad ynglŷn ag ymestyn eu '*safon rhent a thâl gwasanaeth*', mae Llywodraeth Cymru wedi cynghori'r canlynol mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol newydd sy'n dechrau ym mis Ebrill 2025:

"Yn amodol ar punai fydd ffigwr chwyddiant prisiau defnyddwyr ym mis Medi [2024] yn gostwng rhwng 0% a 3%, bydd landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru yn gallu pennu eu cynnydd rhent eu hunain ar gyfer eu tenantiaid yn 2025-26, yn unol â'r fformiwla a'r canllawiau a nodir yn y safon rhent"¹¹.

Os nad yw'r landlord yn dilyn y weithdrefn hon

Os yw eich landlord cymunedol yn ceisio cynyddu'r rhent heb ddilyn y gweithdrefnau a amlinellir uchod, gallech ofyn am gyngor gan Shelter Cymru i'w herio. Yn yr un modd â rhai o'r mathau eraill o gontractau a amlinellir uchod, mae Shelter yn rhybuddio, "os ydych chi'n dechrau talu'r swm newydd, bydd hyn yn cael ei ystyried fel arwydd eich bod chi'n cyntuno i dalu'r swm cynyddol"¹².

⁹ Ibid

¹⁰ 'Cymorth parhaus i denantiaid llety cymdeithasol rhent yng Nghymru', 27 Hydref 2023, gwefan Llywodraeth Cymru: www.gov.wales/continued-support-tenants-rented-social-accommodations-wales (Cyrchwyd ddiwethaf 13 Ionawr 2025).

¹¹ 'Datganiad Ysgrifenedig: Fforddiadwyedd wrth wraidd polisi rhent cymdeithasol', 16 Mai 2024, gwefan Llywodraeth Cymru: www.gov.wales/written-statement-affordability-centre-social-rent-policy (Cyrchwyd ddiwethaf 13 Ionawr 2025).

¹² 'Cynnydd rhent a rhent', gwefan Shelter Cymru: <https://sheltercymru.org.uk/housing-advice/paying-for-housing/rent-and-rent-increases> (Cyrchwyd ddiwethaf 13 Ionawr 2025).

Herio cynnydd rhent

- **Contractau meddiannaeth diogel**

Nid yw fel arfer yn bosibl herio cynnydd rhent a wneir gan landlord cymunedol, gan nad oes gan ddeiliaid contract diogel hawl i apelio'n gyffredinol.

- **Contract safonol rhagarweiniol neu gontract safonol ymddygiad gwaharddedig**

Os oes gennych chi un o'r contractau hyn, cysylltwch â sefydliad arbenigol, fel Shelter Cymru, i gael rhagor o wybodaeth.

Nodwch: Mathau o lety lle na fydd y safon rhent a thâl gwasanaeth yn berthnasol

Mae Atodiad A o'r *safon Rhent a Thâl Gwasanaeth 2020 i 2025* yn cynnwys rhestr o lety gwahanol lle na fydd y safon yn berthnasol, gan gynnwys "tai gofal ychwanegol; tai â chymorth eraill; unrhyw dai nad ydynt yn hunangynhwysol... anheddau ar les sy'n cynnwys y rhai sydd wedi'u llesu i gartrefu'r digartref dros dro... cartrefi gofal [a] llety myfyrwyr".

Os ydych mewn sefyllfa lle nad yw'n ymddangos bod y *safon Rhent a Thâl Gwasanaeth* yn berthnasol i chi, gofynnwch am gyngor arbenigol gan sefydliad fel Shelter Cymru.

4.3 **Hawliau ynghylch rhent os oes gennych gontract meddiannaeth wedi'i addasu gyda landlord cymunedol (cytundebau rhent a oedd ar waith cyn 1 Rhagfyr 2022)**

Nodwch: Mae'r wybodaeth yn yr adran hon yn berthnasol ar gyfer yr holl fathau o gontractau meddiannaeth (sydd eisoes ar waith cyn 1 Rhagfyr 2022) a restrir yn adran 4.1 uchod (oni nodir yn wahanol).

Yn gyffredinol, mae'r weithdrefn ar gyfer pennu a chynyddu rhent gan landlordiaid cymunedol yr un fath â chontractau wedi'u trosi fel yr amlinellir uchod yn adran 4.2 (os nad yw'r landlord yn dilyn y weithdrefn gywir, yna dilynwch y cyngor a roddir yn adran 4.2).

Eithriad yw "os oedd gennych denantiaeth cymdeithas dai ddiogel cyn i'ch cytundeb drosi i gontract meddiannaeth ddiogel. Os oeddech chi'n denant cymdeithas dai diogel, dim ond 4 wythnos o rybudd sydd ei angen i'ch landlord roi i gynyddu eich rhent. Mae'n debygol bod gennych gymdeithas dai ddiogel [tenantiaeth] os gwnaethoch symud i eiddo cymdeithas dai cyn 15 [Ionawr] 1989"¹³.

Herio cynnydd rhent

Yn gyffredinol, bydd eich hawliau yr un fath â'r hawliau a nodwyd yn adran 4.2 uchod.

Mae eithriad, fodd bynnag, os oes gennych gontract wedi'i drosi, a chymdeithas dai yw eich landlord cymunedol, fel a ganlyn:

"Os gwnaethoch chi symud i'ch cartref cyn 1 Rhagfyr 2022 ac roedd gennych chi denantiaeth byrddaliad sicr neu sicr gyda chymdeithas dai... mae gennych yr hawl i herio cynnydd rhent trwy wneud cais i'r Pwyllgor Asesu Rhent. Rhaid i chi wneud hyn o fewn 2 fis ar ôl derbyn hysbysiad RHW12 o gynnydd rhent gan eich landlord".

"Fodd bynnag, byddwch yn ymwybodol y gallai'r Pwyllgor osod rhent uwch os ydyn nhw'n darganfod eich bod chi'n talu llai o rhent na deiliaid contract eraill sy'n byw mewn eiddo tebyg"¹⁴.

5 Os byddwch chi'n cael trafferth fforddio eich rhent

Tai sector preifat

Os ydych chi'n poeni na fyddwch yn gallu talu eich rhent, cysylltwch â'ch landlord cyn gynted â phosibl. Gallwch chi hefyd gysylltu â sefydliad cyngor fel Shelter Cymru neu Cyngor ar Bopeth er mwyn gofyn am gymorth – er enghraifft, efallai y byddant yn gallu eich cynghori os, o ystyried eich math o gontract meddiannaeth, y byddai'n werth trafod gyda'ch landlord i geisio cytuno ar gynnydd rhent is.

¹³ Ibid

¹⁴ Ibid

Mae'n bosibl y bydd y landlord yn ystyried hyn; os byddwch chi'n gorfod symud oherwydd nad yw'r rhent yn fforddiadwy, byddai'r landlord yn gorfod talu costau er mwyn rhentu'r eiddo i bobl eraill. Fel arall, gall y landlord gytuno i gynyddu'r rhent yn raddol dros gyfnod hirach o amser.

Efallai y bydd budd-daliadau lles hefyd yn gallu eich helpu i dalu eich rhent – gweler adran 6 isod.

Os ydych eisoed mewn dyled, neu mewn perygl o fod mewn dyled, oherwydd eich bod chi'n methu talu eich rhent, neu oherwydd costau eraill, ewch i adran 7.

Landlordiaid cymunedol

Os ydych chi'n poeni na fyddwch yn gallu talu eich rhent, dylech gysylltu â'ch landlord cyn gynted â phosibl. Efallai na fydd llawer o opsiynau o ran lleihau, neu oedi, y cynnydd rhent, o ystyried y fformiwla a ddefnyddir gan landlordiaid cymunedol (a amlinellir yn adran 4 uchod) a'r ffaith bod costau rhent yn gyffredinol yn is yn y sector hwn. Fodd bynnag, **efallai y bydd budd-daliadau lles** yn gallu eich helpu i dalu eich rhent – gweler adran 6 isod.

Os ydych eisoed mewn dyled, neu mewn perygl o fod mewn dyled, oherwydd eich bod chi'n methu talu eich rhent, neu oherwydd costau eraill, ewch i adran 7.

Cysylltwch â sefydliad fel Shelter Cymru neu Cyngor ar Bopeth i ofyn am gyngor.

6 Rhent yn cynyddu a budd-daliadau lles

Os ydych ar incwm isel, efallai y byddwch yn gymwys i gael **Budd-dal Tai** (os ydych chi'n hŷn nag oedran Pensiwn y Wladwriaeth) neu **Gredyd Cynhwysol** (os ydych chi'n iau nag oedran Pensiwn y Wladwriaeth) i'ch helpu i dalu'r rhent.

Os ydych eisoed yn hawlio Budd-dal Tai (neu Gredyd Cynhwysol)

Os ydych eisoed yn hawlio Budd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol ac mae eich rhent cynyddu, rhowch wybod i'ch awdurdod lleol neu'r Adran Gwaith a Phensiynau ar unwaith (bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth o'r cynnydd a byddant yn gallu rhoi gwybod i chi pa wybodaeth fydd ei hangen arnynt).

Dylid edrych ar eich hawliad eto a byddwch yn cael eich hysbysu am unrhyw hawl ychwanegol a phryd y byddwch yn dechrau derbyn y swm cynyddol newydd. Efallai y byddwch yn medru hawlio budd-daliadau eraill – gweler isod.

Hawlio Budd-dal Tai (neu Gredyd Cynhwysol) am y tro cyntaf a/neu fudd-daliadau eraill y gallech fod yn gymwys iddynt

Fel arall, os nad oeddech chi'n gymwys i gael Budd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol yn y gorffennol (neu dydych chi ddim wed gwirio o'r blaen), gallai fod yn werth gwirio i weld a allech hawlio'r buddion hyn a/neu fudd-daliadau eraill sydd, er nad ydynt yn benodol ar gyfer eich rhent, yn dal i ddarparu incwm ychwanegol ar gyfer talu rhent a biliau a threuliau eraill.

Gallwch chi hefyd edrych ar:

- Gredyd Pensiwn (budd-dal sy'n gysylltiedig ag incwm i roi rhywfaint o arian ychwanegol i chi pan rydych chi'n ymddeol);
- Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor (sy'n helpu tuag at eich bil Treth Gyngor);
- Budd-daliadau nad ydynt yn dibynnu ar brawf modd fel Lwfans Gweini (ar gyfer pobl hŷn y gallai fod angen cymorth ychwanegol i aros yn annibynnol gartref oherwydd salwch neu anabledd).

Dylai cangen Age Cymru yn eich ardal lleol, neu ein gwasanaeth Cenedlaethol Cyngor Age Cymru, allu'ch helpu i wirio pa fudd-daliadau fyddai'n addas i chi – mae eu manylion cyswllt yn adran 10.

Taliadau Tai yn ôl disgresiwn

Os nad yw'r Fudd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol yn ddigon i'ch helpu i dalu eich rhent, ac rydych chi angen cymorth ariannol ychwanegol, gwnewch gais am Daliad Tai yn ôl disgresiwn gan eich awdurdod lleol. Fel y mae'r enw'n ei awgrymu, gall yr awdurdod ddefnyddio ei ddisgresiwn i ddyfarnu un o'r taliadau ychwanegol hyn, yn dibynnu ar amgylchiadau unigol. Nid oes rhaid talu'r arian hyn yn ôl.

Bydd yr awdurdod yn penderfynu faint y gallwch ei dderbyn, a allwch chi dderbyn taliadau lluosog ac, os felly, am ba hyd. Gellir dyfarnu Taliad Tai yn ôl disgresiwn am y rhesymau canlynol:

- y gwahaniaeth rhwng cyfanswm y fudd-dal tai neu'r credyd cynhwysol rydych chi'n ei dderbyn a swm y rhent y mae'n rhaid i chi ei dalu eich hun (gan arwain at galedi);
- blaendal rhent neu rent ymlaen llaw;
- costau symud ar gyfer eiddo nad ydych yn byw ynddo eto; *neu*
- mewn rhai sefyllfaoedd, i'ch helpu i osgoi digartrefedd a/neu i gynorthwyo gydag ôl-ddyledion rhent.

Mae'r awdurdod yn debygol o ofyn i chi am dystiolaeth o'ch incwm, treuliau rheolaidd ac holi am eich cynilion. Os ydych chi'n cael budd-daliadau anabledd, fel Lwfans Gweini, ni ddylai'r awdurdod eu hystyried yn gyffredinol, gan fod angen yr arian o'r math hwnnw o fudd-dal i dalu am bethau sy'n gysylltiedig â'ch anabledd.

Os na ddyfarnir Taliad Tai yn ôl Disgresiwn i chi, gofynnwch i'r awdurdod lleol ailstyried os ydych yn teimlo bod y penderfyniad yn annheg, ond y tu hwnt i hynny nid oes hawl i apelio (oni bai bod yr awdurdod wedi gweithredu mewn ffordd afresymol wrth ddelio â'ch hawliad; yn yr achos hwnnw cysylltwch ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – mae eu manylion cyswllt ar dudalen 10).

Bydd Shelter Cymru yn medru rhoi rhagor o gyngor a gwybodaeth i chi am Daliadau Tai yn ôl disgresiwn.

Nodwch: Mae awdurdodau lleol yn derbyn dyraniad cyllid newydd ar gyfer DHPs ar ddechrau pob blwyddyn ariannol (sy'n dechrau ym mis Ebrill), felly os yw'ch cais am un wedi'i wrthod yn y gorffennol, gallech ailymgeisio os ydych bellach mewn blwyddyn ariannol newydd.

Rhagor o wybodaeth am fudd-daliadau

Mae'r taflenni gwybodaeth a'r canllawiau canlynol yn cynnwys rhagor o wybodaeth am fudd-daliadau a hawliau:

- Taflen wybodaeth 17 *Budd-dal tai*
- Taflen wybodaeth 92 *Credyd Cynhwysol*;
- Taflen wybodaeth 48 *Credyd Pensiwn*;
- *Mwy o arian yn eich poced: sut i hawlio'r budd-daliadau cywir yn hwyrach mewn bywyd*;

- Taflen wybodaeth 21w *Treth y Cyngor yng Nghymru: gwybodaeth am y dreth a'r cymorth sydd ar gael.*

7 Ôl-ddyledion rhent

7.1 Ceisio cyngor

Os byddwch chi'n cael trafferth talu eich rhent, cysylltwch â Shelter Cymru, neu sefydliad annibynnol sy'n rhoi cyngor ar ddyledion am ddim, cyn gynted â phosibl.

Rhowch wybod i'ch landlord eich bod yn gwneud hyn, gan egluro eich bod chi'n mynd i geisio talu cyn gynted â phosibl. Os mai awdurdod lleol neu gymdeithas dai yw eich landlord, gofynnwch pa gymorth maen nhw'n ei gynnig.

At ddibenion rheoli dyledion, mae ôl-ddyledion rhent yn cael eu trin fel blaenoriaeth oherwydd bod sefyllfa fel hyn yn golygu bod pobl mewn perygl o gael eu troi allan.

Nid yw hyn yn golygu nad oes gobaith o aros yn eich eiddo os ydych chi'n cael trafferth talu rhent. Efallai y byddwch yn gallu osgoi achos llys os ydych chi'n ymgysylltu â'ch landlord ac yn archwilio opsiynau er mwyn ad-dalu.

Gallwch hefyd geisio gwneud y mwyaf o'ch incwm trwy hawlio'r holl fudd-daliadau a hawliau sydd gennych hawl iddynt – gweler adran 6 uchod.

7.2 Trafod ôl-ddyledion

Weithiau gall fod yn bosibl dod i gytundeb gyda'ch landlord i dalu swm penodol o ôl-ddyledion bob mis. **Fodd bynnag, mae'n bwysig gwneud yn siŵr eich bod yn cytuno ar swm y gallwch ei fforddio'n realistig.**

Dylech hefyd gadarnhau eich trefniant yn ysgrifenedig, a gofynnwch am gymorth gan sefydliad fel Shelter Cymru i wneud yn siŵr mai dyma yw'r opsiwn gorau.

7.3 Cynllun Seibiant Dyledion ('Lle i Anadlu')

Efallai y byddwch yn gymwys ar gyfer y Cynllun Seibiant Dyledion ('Lle i Anadlu'). Mae'r cynllun yn rhad ac am ddim ac wedi'i gynllunio i roi amser i bobl dderbyn cyngor ar ddyledion. Mae'n atal credydwy'r rhag ychwanegu llog, ffioedd neu gymryd camau gorfodi am 60 diwrnod. Mae yna hefyd 'argyfwng iechyd meddwl 'Lle i Anadlu' penodol. Mae hyn yn para cyhyd â thriniaeth argyfwng iechyd meddwl y person, ynghyd â 30 diwrnod ychwanegol (nid yw hyn yn dibynnu ar ba mor hir mae'r driniaeth argyfwng yn para).

Gwneud cais i'r cynllun 'Lle i Anadlu'

Ni allwch wneud cais i'r cynllun yn uniongyrchol, ond gallwch ofyn i sefydliad sy'n darparu cyngor ar ddyledion am ddim i'ch helpu i gael mynediad ato – ewch i adran 7.2. Efallai y byddwch hefyd yn gallu cael mynediad ato trwy eich awdurdod lleol os oes rhywun yno'n eich helpu chi'n barod. Lle bo hynny'n berthnasol, efallai y bydd gweithiwr iechyd meddwl hefyd yn gallu eich helpu i wneud cais.

Nodwch: Byddwch yn wylidwrs iawn o gwmnïau rheoli dyledion sy'n codi tâl am eu gwasanaethau – efallai y byddant yn defnyddio geiriau tebyg i 'Lle i Anadlu' ar eu gwefannau neu yn eu hysbysebion, ond mae'n bosib eu bod nhw'n marchnata cynlluniau rheoli dyledion sy'n codi tâl. **Mae'n well ceisio cyngor gan y sefydliadau a restrir yn adran 7.4.**

Pan fyddwch wedi cychwyn ar gyfnod 'Lle i Anadlu'

Pan fydd eich cais wedi cael ei gymeradwyo a phan fydd eich landlord wedi cael ei hysbysu eich bod wedi cychwyn ar gyfnod 'Lle i Anadlu', nid oes hawl gan eich landlord:

- fynnu eich bod chi'n talu eich ôl-ddyledion na/neu gysylltu â chi i drafod eich ôl-ddyledion;
- codi llog a/neu ffioedd eraill sy'n gysylltiedig â'r ôl-ddyledion (dylid rhewi'r rhain yn ystod y cyfnod 'Lle i Anadlu');
- cyflawni unrhyw gamau gorfodi trwy'r llysoedd, casglwyr dyledion neu feilïaid (os oes un o'r pethau hyn eisoes ar waith, dylid aros tan fod y cyfnod 'Lle i Anadlu' wedi dod i ben).

O ganlyniad i'r uchod, "yn ystod y cyfnod 'Lle i Anadlu', nid oes hawl gan eich landlord gyflwyno hysbysiad na'ch troi allan oherwydd ôl-ddyledion rhent".

Fodd bynnag, cofiwch nad yw "cyfnod 'Lle i Anadlu' yn rhwystro landlord rhag cyflwyno hysbysiad na'ch troi allan am resymau eraill, er enghraifft, ymddygiad gwrth-gymdeithasol. Nid yw'r cyfnod hefyd yn atal landlord rhag defnyddio'r broses troi allan 'dim bai' ar gyfer deiliaid contract safonol. Gall landlordiaid preifat (ac mewn rhai amgylchiadau landlordiaid cymunedol) ddefnyddio'r weithdrefn droi allan 'dim bai'"¹⁵.

Yn arwyddocaol, mae'n rhaid i bob landlord ddilyn rheolau penodol ar gyfer y seiliau hyn dros droi allan. Mae'n bosib bydd modd eu herio os nad ydynt yn dilyn y rheolau – nid yw'r pwnc hwn yn cael ei drafod yn y daflen wybodaeth hon, ond mae 'na ragor o wybodaeth yn ein Taflen Ffeithiau 68w Age Cymru *Rhentu eich cartref yng Nghymru – eich hawliau os cewch chi fygythiad o droi allan*.

Nodwch: Mae'n bwysig nodi nad yw 'Lle i Anadlu' yn fath o wyliau rhag talu rhent, felly mae'n rhaid i chi dalu eich symiau rhent cyfredol a rheolaidd.

Bydd eich landlord yn gallu gwneud cais i ddod â'r cyfnod 'Lle i Anadlu' i ben os na fyddwch chi'n gwneud hyn. Hefyd, pan fydd y cyfnod 'Lle i Anadlu' wedi dod i ben, bydd yn ofynnol yn gyfreithiol i chi dalu'r hyn sy'n ddyledus. Fodd bynnag, "os oes arian yn cael ei dynnu o'ch budd-daliadau neu'ch cyflog, bydd y rhain yn stopio tra byddwch yn cael 'Lle i Anadlu'"¹⁶.

7.4 Sefydliadau sy'n darparu cyngor ar ddyledion

Os hoffech chi gyngor ar ddyledion, cysylltwch â gwasanaeth sydd wedi cael ei awdurdodi gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (rheoleiddiwr sefydliadau ariannol yn y DU) er enghraifft

- Elusen ddyled StepChange;
- Llinell Ddyled Genedlaethol;

¹⁵ 'Lle i Anadlu' o'ch dyledion', Gwefan Shelter Cymru: <https://sheltercymru.org.uk/housing-advice/money-advice/loans-debt-and-bankruptcy/breathing-space-from-your-debts> (Cyrchwyd ddiwethaf 14 Ionawr 2025).

¹⁶ Ibid

- eich awdurdod lleol os ydyn nhw'n cynnig help fel hyn; *neu*
- mewn rhai ardaloedd, Shelter Cymru.

Mae manylion cyswllt, neu wybodaeth am sut i ddod o hyd i fanylion cyswllt, y sefydliadau hyn yn adran 10.

Mae cynghorydd dyled yn medru eich helpu chi i roi trefn ar eich arian a'ch dyledion, a thrafod gyda'ch landlord a chredydwy'r eraill. Maen nhw hefyd yn medru asesu punai eich bod chi'n gymwys am 'Le i Anadlu' – ewch i adran 7.3 uchod.

Mae taflen wybodaeth Age UK (75) *Dealing with Debt* yn ddefnyddiol – ewch i'r wefan neu cysylltwch â Chyngor Age Cymru er mwyn gofyn am gopi (ewch i adran 10).

8 Rhentu Doeth Cymru – gwiriwch fod eich landlord preifat wedi cofrestru, a bod ganddyn nhw drwydded

Corff Llywodraeth Cymru yw Rhentu Doeth Cymru. Mae'n rhaid bod landlordiaid preifat yn cofrestru gyda Rhentu Doeth Cymru. Hefyd, mae'n rhaid bod trwydded gan Rentu Doeth Cymru gan unrhyw un sy'n rhentu neu reoli eiddo domestig, hynny yw landlordiaid sy'n rheoli eu heiddo eu hun, neu asiant gosod eiddo sy'n cael eu penodi gan landlord.

Pwrpas y cynllun cofrestru a thrwyddedu yw monitro landlordiaid preifat ac asiantiaid gosod eiddo er mwyn sicrhau mai dim ond pobl onest sy'n medru rhentu eiddo.

8.1 Cod Ymarfer Rhentu Doeth Cymru ar gyfer landlordiaid preifat ac asiantiaid gosod eiddo

Mae'n rhaid i landlordiaid ac asiantiaid gosod eiddo fodloni'r safonau a amlinellir yn nogfen Rhentu Doeth Cymru (uchod):

Cod Ymarfer ar gyfer Landlordiaid ac Asiantiaid Gosod Eiddo sydd wedi eu trwyddedu o dan Ran 1 Deddf Tai (Cymru) 2014 (*Hydref 2015*)

Dewch o hyd i gopi ar wefan Llywodraeth Cymru yma:

www.gov.wales/rent-smart-wales-code-practice

Os ydych chi'n poeni am ymddygiad eich landlord neu'ch asiant gosod eiddo, cysylltwch â Rhentu Doeth Cymru. Os nad yw'r landlord neu'r asiant yn dilyn y Cod Ymarfer, mae'n bosib byddan nhw'n colli eu trwydded neu'n methu adnewyddu'r drwydded. Gallwch chi wneud cwyn gyfrinachol os hoffech chi.

8.2 Prawf 'person addas a phriodol' ar gyfer landlordiaid preifat ac asiantiaid gosod eiddo

Pan mae Rhentu Doeth Cymru'n rhoi trwydded i unigolyn, mae'n rhaid eu bod nhw'n fodlon bod yr ymgeisydd yn 'person addas a phriodol' cyn eu bod nhw'n cael trwydded.

"Mae'n rhaid sicrhau bod y bobl sy'n gyfrifol am osod a rheoli eiddo yn y sector eiddo preifat yn onest ac yn ddibynadwy cyn eu bod nhw'n cael trwydded. Hefyd, mae angen sicrhau nad yw'r unigolyn yn debygol o beryglu lles a diogelwch y bobl sy'n byw yn yr eiddo"¹⁷.

Pan mae Rhentu Doeth Cymru'n penderfynu bod unigolyn yn 'person addas a phriodol', maen nhw'n ystyried y canlynol:

- "ydy'r unigolyn wedi cyflawni trosedd sy'n gysylltiedig â thwyll neu anonestrwydd, trais, arfau tanio neu gyffuriau, neu unrhyw drosedd sydd wedi cael eu rhestru gan y Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003";
- "ydy'r unigolyn wedi gwahaniaethu'n anghyfreithlon ar sail nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, neu wedi erlid unrhyw berson yn groes i'r Ddeddf wrth weithredu"¹⁸; *neu*
- dorri cyfreithiau sy'n gysylltiedig â thai, landlordiaid neu ddeiliaid contract.

Nid yw'r rhestr uchod yn gyflawn, ac mae'n rhaid bod gan Rentu Doeth Cymru'r holl wybodaeth addas sydd ei angen arnyn nhw."¹⁹.

¹⁷ 'Canllaw ar brawf person addas a phriodol' wrth drwyddedu landlordiaid ac asiantiaid gosod eiddo: Canllaw a roddwyd i'r Awdurdod Trwyddedu dan ran 20(6) Deddf Tai (Cymru) 2014, Llywodraeth Cymru / Rhentu Doeth Cymru, Hydref 2015.

¹⁸ Ibid

¹⁹ Ibid

8.3 Os nad yw'ch landlord preifat wedi cofrestru neu os nad oes gan eich landlord/asiant drwydded

Sut mae Rhentu Doeth Cymru neu'r awdurdod lleol yn gweithredu

Bydd landlordiaid neu asiantiaid gosod eiddo nad ydyn nhw wedi cofrestru, neu sydd ddim yn dilyn y rheolau trwyddedu, yn wynebu un o'r cosbau isod:

- hysbysiad cosb benodedig;
- **gorchymyn atal rhent** –mae hyn yn stopio'r deiliwr contract rhag talu'r rhent am gyfnod penodol; *neu*
- **gorchymyn ad-dalu rhent** –Gorchymyn i'r landlord ad-dalu unrhyw rent a dalwyd yn ystod cyfnod penodol, a/neu budd-dal tai neu gredyd cynhwysol a dderbyniwyd (hynny yw ble cafodd y budd-daliadau hyn eu talu i'r landlord ar ran y deiliad contract er mwyn eu helpu i dalu'r rhent).

Cysylltwch â'ch awdurdod lleol neu Rentu Doeth Cymru i gael rhagor o wybodaeth am y pwnc hwn.

Beth gall y deiliad contract wneud?

“Pan fydd landlord wedi cael ei erlyn yn llwyddiannus, neu pan fydd gorchymyn ad-dalu rhent wedi cael ei wneud ynghylch budd-dal tai neu gredyd cynhwysol, gall deiliaid contract wneud cais am orchymyn ad-dalu rhent i'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl er mwyn cael ad-daliad. Os hoffech chi wneud hyn cysylltwch â Thribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru. Bydd yn rhaid i geisiadau gan ddeiliaid contract gael eu gwneud o fewn 12 mis o euogfarn neu orchymyn ad-daliad rhent, am bris o £155 (heblaw eich bod chi'n derbyn budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm)”²⁰.

Cysylltwch â Shelter Cymru i gael rhagor o wybodaeth.

²⁰ 'Cofrestru a thrwyddedi landlordiaid, gwefan Shelter Cymru: <https://sheltercymru.org.uk/housing-advice/finding-a-place-to-live/renting-privately/landlord-registration-and-licensing> (cyrchwyd ar 14 Ionawr 2025).

Cyfyngiadau ar droi allan

Os nad yw eich landlord wedi cofrestru, a does ganddyn nhw ddim trwydded, a dydyn nhw ddim wedi penodi asiant sydd â thrwydded, **mae'n bosib na fyddwn nhw'n medru troi allan heb fai** – gwelwch taflen wybodaeth Age Cymru (68w) – Rhentu eich cartref yng Nghymru – eich hawliau os ydych chi'n cael eich troi allan.

8.4 Gwirio'r gofrestr

Defnyddiwch gofrestr Rhentu Doeth Cymru i wirio bod eich landlord neu eich asiant gosod eiddo wedi cofrestru a bod ganddyn nhw drwydded. Defnyddiwch y ddolen isod, neu dewch o hyd i'w manylion cyswllt yn adran 10:

<https://rentsmart.gov.wales/en/check-register>

9 Ffioedd Gosod

Mae'n drosedd i landlordiaid neu asiantaethau gosod tai i godi tâl ar ddeiliad contract nad yw wedi ei ragnodi fel 'taliadau a ganiateir' gan ddeddfwriaeth.

Mae'r taliadau a ganiateir, yn ogystal â'ch taliadau rhent rheolaidd, wedi eu nodi isod:

- blaendal sicrwydd;
- blaendaliadau cadw (mae blaendaliadau cadw wedi eu capio ar gyfanswm sy'n gyfwerth a rhent un wythnos, ac maen nhw'n ad-daladwy yn y mwyafrif o amgylchiadau);
- taliadau diffyg daliad (os bydd deiliaid contractau yn torri eu contractau);
- taliadau treth y cyngor, cyfleustodau, trwydded teledu, neu wasanaethau cyfathrebu **pan fyddan nhw'n rhan o'ch rhent rheolaidd.**

Nid oes hawl codi tâl am:

- weinyddu cyffredinol;
- gwirio geirdaon neu wiriadau credyd;
- ymweliadau yng nghwmni rhywun;

- derbyn stocrestr;
- arwyddo contractau;
- llunio, diwygio neu adnewyddu contract meddiannaeth; ac
- archwilio eiddo ar ddiwedd cyfnod contract meddiannaeth.

Dylai deiliad contract fedru adennill taliadau fel hyn - cysylltwch â Shelter Cymru i ofyn am ragor o wybodaeth. Gallwch chi ddod o hyd i ragor o wybodaeth ar eu gwefan:

<https://sheltercymru.org.uk/housing-advice/paying-for-housing/letting-fees>

Cyfyngiadau ar droi allan

Os yw eich landlord neu asiant gosod wedi codi tâl am ffi waharddedig a / neu flaendal cadw, a dydych chi ddim wedi cael yr arian nôl, *mae'n bosib na fyddan nhw'n medru eich troi allan heb fai* - gwelwch *Daflen Wybodaeth Age Cymru 68w Rhentu eich cartref yng Nghymru* - eich hawliau os ydych chi'n cael eich bygwth gyda throi allan - rhagor o wybodaeth.

10 Sefydliadau Defnyddiol

Cyngor Age Cymru

Gwybodaeth a chyngor cyfrinachol am ddim, am faterion sy'n effeithio ar bobl dros 50 oed yng Nghymru. Mae'r gwasanaeth ar gael yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

Ffôn: 0300 303 44 98

E-bost: advice@agecymru.org.uk

Gwefan: www.agecymru.wales/advice

Sefydliadau Lleol Age Cymru

Efallai bydd eich cangen Age Cymru lleol yn medru darparu cyngor a gwybodaeth am amrywiaeth o faterion. Mae **Cyngor Age Cymru**'n medru darparu gwybodaeth am eich cangen leol (gweler uchod), neu ewch i wefan Age Cymru:

www.agecymru.wales/local

Cyngor ar Bopeth

Rhwydwaith genedlaethol o ganolfannau sy'n darparu cyngor annibynnol a chyfrinachol am ddim, wyneb yn wyneb neu dros y ffôn.

Ffôn: 0800 702 2020

Gwefan: www.citizensadvice.org.uk/wales

Awdurdodau lleol (y cyngor)

Dewch o hyd i fanylion cyswllt eich awdurdod lleol ar wefan Llywodraeth Cymru:

www.gov.wales/find-your-local-authority

Llinell Ddyled Genedlaethol

Llinell ddyled genedlaethol ar gyfer pobl sy'n wynebu heriau sy'n ymwneud â dyled.

Ffôn: 0808 808 4000

Gwefan: www.nationaldebtline.org

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Mae'r Ombwdsmon yn gwneud yn siŵr nad yw corff cyhoeddus, fel awdurdod lleol, yn trin pobl yn annheg.

Ffôn: 0300 790 0203

E-bost: ask@ombudsman.wales

Gwefan: www.ombudsman.wales

Rhentu Doeth Cymru

Sefydliad sy'n cofrestru landlordiaid a rhoi thrwyddedau i landlordiaid ac asiantiaid gosod eiddo sy'n gorfod bodloni *Deddf Tai (Cymru) 2014*.

Ffôn: 03000 133 344

Gwefan: www.rentsmart.gov.wales

Shelter Cymru

Elusen sy'n darparu cyngor i bobl sydd â phroblemau sy'n ymwneud â thai. Mae hyn yn cynnwys ystod eang o bynciau, gan gynnwys materion sy'n ymwneud â rhent; hawliau i ddeiliaid contractau; Troi allan; digartrefedd ac atgyweiriadau.

Ffôn: 08000 495 495

Gwefan: www.sheltercymru.org.uk

Elusen StepChange

Cyngor am ddim, annibynnol am ddyledion sy'n eich helpu i ystyried eich opsiynau, gan gynnwys sefydlu cynllun dyledion (ad-daliadau).

Ffôn: 0800 138 1111

Gwefan: www.stepchange.org

Tai Pawb

Sefydliad yng Nghymru sy'n hyrwyddo cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol o ran tai. Mae Tai Pawb yn gweithio mewn partneriaeth â darparwyr a derbynwyr gwasanaethau tai, partneriaid awdurdodau lleol, sefydliadau gwirfoddol a Llywodraeth Cymru.

Ffôn: 02921 057 957

E-bost: info@taipawb.org

Gwefan: www.taipawb.org

Llywodraeth Cymru

Llywodraeth ddatganoledig Cymru.

Ffôn: 0300 060 4400

E-bost: customerhelp@gov.wales

Gwefan: www.gov.wales

11 Rhagor o wybodaeth am Age Cymru

11.1 Pwy ydyn ni?

Age Cymru yw'r elusen genedlaethol ar gyfer pobl hŷn

Ein **gweledigaeth** yw cymdeithas sy'n galluogi pawb yng Nghymru i heneiddio'n gyffyrddus. Cymdeithas ble mae pobl hŷn yn werthfawr, yn cael eu cynnwys, ac yn medru effeithio ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Ein **cenhadaeth** yw gwella bywydau pobl hŷn drwy ddarparu cyngor arbenigol, cefnogaeth a gwasanaethau. Rydyn ni'n defnyddio ein gwybodaeth a'n profiadau i ddylanwadu ar bolisïau a phenderfyniadau sy'n effeithio ar bobl hŷn.

Rydyn ni'n gweithio gyda'n partneriaid lleol i:

- ddarparu gwybodaeth a chynghor
- darparu rhaglenni llesiant
- darparu eiriolaeth annibynnol
- cefnogi gofalwyr, ac
- ymgyrch ac ymchwilio.

Age Cymru

Tŷ'r Mariners

Llys Trident

Ffordd Ddwyrain Moors

Caerdydd

CF24 5TD

029 2043 1555

www.agecymru.wales

Elusen Gofrestredig 1128436

11.2 Sut fedrwn ni helpu?

Cyngor Age Cymru: ein gwasanaeth gwybodaeth a chynghor ar gyfer materion sy'n effeithio ar bobl dros 50 oed yng Nghymru

Mae Cyngor Age Cymru wedi ymrwymo i fod y prif wasanaeth gwybodaeth a chynghor ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru.

Ein nod yw darparu gwybodaeth a chynghor effeithiol a hygyrch o ansawdd da iawn, a darparu gwasanaeth diduedd a chyfrinachol am ddim. Mae Cyngor Age Cymru'n medru helpu pobl hŷn, eu teuluoedd, eu ffrindiau, eu gofalwyr a gweithwyr proffesiynol. Gallwch chi lawrlwytho ein canllawiau a'n taflenni gwybodaeth o'n gwefan, neu cysylltwch â'n llinell gyngor er mwyn gofyn am gopi papur drwy'r post.

Cefnogaeth leol

Mae Cyngor Age Cymru'n borth i'n gwasanaethau lleol. Bydd ymweliadau a'r cartref a chefnogaeth wyneb yn wyneb mewn swyddfeydd lleol ar gael ar gyfer pobl sydd angen cefnogaeth ychwanegol neu gefnogaeth arbenigol.

Cysylltwch â ni

Os hoffech chi siarad gydag un o'n harbenigwyr, yn y Gymraeg neu'r Saesneg, ffoniwch **0300 303 44 98**. Mae ein llinell gyngor ar agor rhwng 9am a 4pm, dydd Llun - dydd Gwener.

Codir tâl am alwadau ar yr un gyfradd â galwad i rif 01 neu 02 safonol. Bydd galwadau'n cael eu cynnwys mewn pecynnau galwadau cynhwysfawr llinellau dir neu ffonau symudol.

Gallwch chi hefyd:

- e-bostio advice@agecymru.org.uk; neu
- ewch i'r wefan: www.agecymru.wales/advice



Gwasanaeth Cwbl Achrededig sy'n cynnwys
adolygu gan gymheiriad
Fully Accredited Service with peer review



darparu gwybodaeth a chynghor o safon i bobl Cymru
a hynny mewn modd sy'n gyson
providing a consistent approach to quality information
and advice for the people of Wales



www.facebook.com/agecymru



www.x.com/AgeCymru



www.youtube.com/agecymru

Ymunwch â'r rhestr bostio er mwyn derbyn ein newyddlen

Mae ein newyddlen chwarteron yn llawn gwybodaeth am ein hymgyrchoedd, ein gwasanaethau a sut fedrwch chi gefnogi ein gwaith. Ymunwch â'r rhestr bostio drwy fynd i:

www.agecymru.wales/agematters

Ymwadiad a gwybodaeth am hawlfraint

Nid yw'r daflen wybodaeth hon yn ddatganiad cynhwysfawr o'r gyfraith yn y pwnc hwn. Ni all Age Cymru roi cyngor cyfreithiol neu ariannol i unigolion ac mae'n bosibl bod rhai rheolau wedi newid ers cyhoeddi'r daflen wybodaeth hon. Sylwch nad yw cynnwys asiantaethau, cwmnïau, cynhyrchion, gwasanaethau neu gyhoeddiadau a enwir yn y daflen ffeithiau hon yn gyfystyr ag argymhelliad na chymeradwyaeth gan Age Cymru. Er bod pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau cywirdeb, ni all Age Cymru fod yn gyfrifol am gamgymeriadau neu hepgoriadau.

© Age Cymru 2025. Cedwir pob hawl. Gall canghennau lleol Age Cymru atgynhyrchu rhan o'r daflen wybodaeth hon, neu'r daflen gyfan, heb ei newid. Bydd angen rhoi cydnabyddiaeth briodol i Age Cymru wrth wneud hyn. Ni chaniateir i unrhyw un arall atgynhyrchu'r daflen wybodaeth hon mewn unrhyw ffurf heb ganiatâd ysgrifenedig gan Age Cymru.

11.3 Sut fedrwch chi helpu?

Mae'r holl wybodaeth rydyn ni'n ei darparu am ddim yn gwbl ddiudedd. Mewn sawl achos, mae ein hymyriadau amserol yn medru gwneud gwahaniaeth enfawr. Mae'r boblogaeth yn heneiddio, ac mae mwy o bobl nag erioed yn dod atom er mwyn gofyn am gefnogaeth. Gyda'ch help chi, rydyn ni'n medru darparu cymorth i bobl mewn angen.

Gwneud rhodd

Mae pob rhodd yn gwneud gwahaniaeth mawr ac yn ein helpu ni i barhau gyda'n gwaith pwysig.

Ffoniwch: **029 2043 1555**

Ewch i: **www.agecymru.wales/donate**

Mae pob rhodd yn golygu ein bod ni'n medru cefnogi person hŷn sydd angen help.

- Mae £10 yn mynd tuag ar weithiwr sy'n darparu cyngor arbenigol i bobl sy'n ffonio ein gwasanaeth gwybodaeth a chyngor.
- Mae £20 yn mynd tuag at gostau cynhyrchu canllawiau a thaflenni gwybodaeth am ddim er mwyn darparu cyngor am faterion sy'n effeithio ar bobl dros 50 oed.

Codi arian

Mae nifer o ffyrdd o godi arian ar gyfer Age Cymru, yn cynnwys pobi, rhedeg marathon a gweu hetiau bach ar gyfer yr Her Weu.

Ffoniwch: **029 2043 1555**

Ewch i: **www.agecymru.wales/getinvolved**

Gwirfoddolwch gyda ni

Rydych chi'n medru gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl hŷn mewn nifer o ffyrdd. Os hoffech chi ein cefnogi ni, rydyn ni'n barod i wrando.

Ffoniwch: **029 2043 1555**

Ewch i: **www.agecymru.wales/volunteer**

Gadewch rodd yn eich ewyllys

Pan rydych chi'n gadael rhodd i Age Cymru yn eich ewyllys, rydych chi'n sicrhau bod gan bobl hŷn gefnogaeth a chwmni.

Ffoniwch: **029 2043 1555**

Ewch i: **www.agecymru.wales/legacy**

